**CYNGOR CYMDEITHAS RHOSCOLYN**

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 yh. Nos Iau, 10 Awst 2023**

**Presennol:** Cadeirydd: Cynghorydd Barry Thomas
**Cynghorwyr:** Mike Bloor, Susan Hanbury. William Roberts a Tony Thompson
Hefyd yn bresennol: Mai Owen - Clerc
Keith Roberts – Cynghorydd Sir

1. **Ymddiheuriadau:** Cynghorwr Evan Wyn Robertson.

2. **Datganiad o Ddiddordeb:** – dim

3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol:** Derbyniwyd fod cofnodion cyfarfod 29 Mehefin 2023 yn gywir. (cyn. S. Hanbury, eilio T. Thompson).

4. **Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 Byddai'r clerc yn trefnu cyfarfod gyda'r Cyngor Sir i drafod y materion parcio ym Mhontrhydybont.

**5. Cynllunio**

5.1 **HHP/2023/160 Tý Rhos, Pontrhydybont**
Cais llawn ar gyfer codi gweithdy - dim gwrthwynebiad.

5.2 **LUP/2023/5 Cil y Gwynt, Rhoscolyn**
Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer y defnydd arfaethedig o dir ar gyfer codi annedd a gafodd ganiatâd o dan gais cynllunio cyfeirnod V/205 ac a ddiogelwyd gan Dystysgrif Cyfreithlondeb cais cyfeirnod 43C134B/LUC – Mynegwyd pryderon am y posibilrwydd o ddatblygiadau pellach yn y cyffiniau. Roedd y mynediad i'r safle ar lôn gul oedd yn arbennig o brysur yn ystod misoedd yr haf ac roedd draenio dŵr gwastraff yn barod yn broblem yn dilyn datblygiadau mawr i sawl eiddo cyfagos.

5.3 **Penderfyniad Cynllunio**
TAW 2023/18 Gwynfryn Lodge, Rhoscolyn – wedi'i ganiatáu.

6. **Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol**

6.1 Cefnogaeth i deuluoedd dros y Gwyliau Haf
6.2 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Gorffennaf 2023
6.3 Camau cadarnhaol tuag at ddarparu Porthladd Rhydd Ynys Môn
6.4 Cyfarfod nesaf y Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned – 6.30pm 12 Medi 2023
6.5 Gorchymyn Terfyn Cyflymder 20MYA Arfaethedig

7. **Materion Ariannol**

7.1 Cyflwynwyd: yr adroddiad ariannol ar gyfer y cyfnod o 1.6.2023 i 31.7.2023 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon. Nodwyd bod disgwyl taliad praesept arall ddiwedd mis Awst a bod y Cyngor mewn sefyllfa ariannol well bellach. Roedd y gwariant i gyd yn ôl y disgwyl ond roedd angen bod yn ofalus o hyd gan fod yr archwilydd allanol yn dal i weithio ar sawl blwyddyn o gyfrifon ac roedd bil mawr i ddod ganddynt.

7.2 Taliadau i’w gwneud:

Torri llwybrau £650

7.3 Cais am nawdd ariannol – cytunwyd i roi rhodd o £200 i’r Rhwyd.

**8. Materion Plwyfol**

8.1 Ffliw Adar – adroddiad gan y Cyngor Sir

8.2 Cytunwyd y dylai'r Clerc ysgrifennu at Bartneriaeth Ynys Cybi i fynegi pryderon y Cyngor am nifer o wallau oedd ar yr arwydd newydd i ymwelwyr ym Mae Trearddur.

**9. Dogfennau statudol**

9.1 Rheolau Sefydlog – cyflwynwyd a chytunwyd ar fersiwn newydd wedi nodi’r canlynol:
2 (v) Ni chaiff cyfarfod fod yn hwy na chyfnod o 2.0 awr.
4 (b) Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar yr ail ddydd Iau ym mis Mai.

9.2 Cytunwyd i dderbyn y dogfennau canlynol fel y'u cyflwynwyd gan y clerc:
Polisi Diogelu Data a Gwybodaeth
Polisi Rhyddid Gwybodaeth
Hysbysiad Preifatrwydd

9.3 Cytunwyd yn unfrydol y dylid newid enw Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn i Gyngor Cymuned Rhoscolyn. Byddai'r clerc yn gofyn am gyngor pellach ar sut i weithredu ar hyn.

**10. Hyfforddiant** – Cafwyd adborth cadarnhaol gan Cyng. Hanbury ar yr hyfforddiant Cod Ymddygiad ac argymhellodd fod pob Aelod o'r Cyngor yn mynd ar y cwrs.

**11. Cyfarfod Nesaf 21 Medi 2023**

---

## RHOSCOLYN COMMUNITY COUNCIL

### Minutes of the Council Meeting - 7.00 pm. Thursday, 10 August 2023

**Present:** Chair: Councillor Barry Thomas
**Councillors:** Mike Bloor, Susan Hanbury, William Roberts and Tony Thompson
Also present: Mai Owen - Clerk

Keith Roberts - County Councillor

1. **Apologies:** Councillors Evan Wyn Robertson

2. **Declaration of Interest:** – none

3. **Minutes of previous meeting:** the minutes of the 29 June 2023 were accepted as correct (prop. S. Hanbury, seconded T. Thompson).

4. **Matters arising from the minutes**

4.1 The clerk would arrange a meeting with the County Council to discuss the parking issues in Pontrhydybont.

**5. Planning**

5.1 **HHP/2023/160 Ty Rhos, Pontrhydybont**
Full application for the erection of a workshop – no objection.

5.2 **LUP/2023/5 Cil y Gwynt, Rhoscolyn**
Application for a Certificate of Lawfulness for the proposed use of land for the erection of a dwelling which was granted under planning application reference V/205 and safeguarded by Certificate of Lawfulness application reference 43C134B/LUC on land – Members were concerned about the prospect of further developments in that vicinity. Access to the site is via an extremely narrow lane that is particularly busy in the summer months and waste water drainage had become an issue due to the very large scale development of several neighbouring properties.

5.3 **Planning decision**
VAR 2023/18 Gwynfryn Lodge, Rhoscolyn – granted.

**6. Correspondence - submitted and noted:**

6.1 Support for families over summer holidays
6.2 The Executive's forward work programme - July 2023 update
6.3 Making positive progress to deliver Anglesey Freeport
6.4 Advance Notice: Next meeting of the Town and Community Councils Liaison Forum - Tuesday 12 September at 6.30am
6.5 Proposed 20MPH Speed Limit

7. **Financial Matters**

7.1 Submitted: the financial report for the period from 1.6.2023 to 31.7.2023 along with bank reconciliations, statements and copies of the accounts.
It was noted that a further precept payment was due at the end of August and that the Council was now in a better financial position. All expenditure was on target but there was still a need to be cautious as the external auditor was still working on several years accounts and a very large bill was expected.

7.2 Payments:

Cutting of footpaths £650

7.3 **Request for donation:** It was agreed to donate £200 to' Rhwyd'.

**8. Parochial Matters**

8.1 Avian Flu – report from the County Council

8.2 It was agreed that the Clerk should write to Ynys Cybi Partnership to express the Council's concerns about a number of errors on the new visitor's sign in Trearddur Bay.

**9. Statutory documents**

9.1 Standing Orders - new version submitted and agreed with following amendments:
2 (v) A meeting shall not exceed a period of (2.0) hours.
4 (b) In a year which is not an election year, the annual meeting of the Council shall be held on the second Thursday in May.

9.2 It was agreed to accept the following documents as submitted by the clerk:
Information and Data Protection Policy
Freedom of Information Policy
Privacy Notice

9.3 It was unanimously agreed that the name Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn should be changed to Cyngor Cymuned Rhoscolyn. The clerk would seek further advice on how to deal with this.

**10. Training** – Cllr. Hanbury gave positive feedback on the Code of Conduct training and recommended that all Community Council Members book their place on the course.

**11. Next Meeting 21 September 2023**